PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 5 MEHEFIN 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Jackie Parry, Wong a/ac Wood |

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor Blynyddol ar 24 Mai 2018 wedi penodi’r Cynghorydd Ramesh Patel fel Cadeirydd y Pwyllgor a’r Aelodau canlynol i’r Pwyllgor:

Y Cynghorwyr Henshaw, Philippa Hill-John, Owen Jones, Lancaster, Jacqui Parry, Owen, Wong a Wood

2 : CYLCH GORCHWYL

Gofynnwyd i Aelodau’r Pwyllgor nodi Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Oliver Owen a'r Cynghorydd Mackie.

4 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau a Deddf Llywodraeth Leol 1972:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jacqui Parry | Eitem 6 ar yr agendaCadeirydd Blaenorol ar y Pwyllgorau Trwyddedu ac Amddiffyn y Cyhoedd |

5 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

6 : GWASANAETH RHEOLIADOL A RENNIR – CYNLLUN BUSNES 2018/19 AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Gynllun Busnes Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir 2018/19 ac Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir 2017/18. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi cynnwys pob dogfen ac ystyried a ydynt yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir (SRS) yn wasanaeth cydweithredol a ffurfiwyd rhwng yr awdurdodau lleol parther sef cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg. Nod yr SRS oedd darparu gwasanaeth hollol integredig o dan strwythur rheoli unigol ar gyfer y

swyddogaethau Safonau Masnachol, Iechyd Amgylcheddol a Thrwyddedu gyda threfniadau llywodraethu a rennir.  Gyrrwyd creu'r gwasanaeth yn wreiddiol gan yr angen i leihau cyllidebau wrth adeiladu gwydnwch o fewn y gweithrediad.

Mae'r SRS yn gweithredu o dan Gytundeb Cydweithio ac mae Pennaeth y Gwasanaeth yn adrodd i Gydbwyllgor o Aelodau Etholedig a dynnir o'r tri awdurdod lleol partner.  Rhestrir dirprwyo polisi a'r swyddogaethau o bartneriaid i'r Cydbwyllgor a'r Pennaeth Gwasanaeth yn y Cytundeb Cydweithio, gan gynnwys:

- Bod y swyddogaethau'n cael eu gweithredu
- Cylch gorchwyl a chyfansoddiad y Cydbwyllgor, y Bwrdd Rheoli, ayyb
- Gwasanaethau staffio i'w darparu gan y gwesteiwr a phartneriaid, cyllid a materion swyddogaethol eraill
- Y model gweithredi cyllidol.

Darparodd yr adroddiad drosolwg i Aelodau'r Pwyllgor o'r gwasanaethau craidd a ddarperir gan yr SRS.

Mae'r SRA yn llunio Cynllun Busnes ac Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn.  Bwriedir i'r ddwy ddogfen ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol a myfyrio ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol.

Roedd Cynllun Busnes SRS 2018/19 yn atodedig i'r adroddiad yn Atodiad 1, Rhestrodd y Cynllun Busnes yr adnoddau, y targedau, yr heriau a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn chwe phrif adran: Trosolwg o Wasanaethau; Nodau Gwasanaeth a Blaenoriaethau Strategol; Heriau; Cyllideb ac Adnoddau; Datblygu'r Gweithlu; a Throi Camau Gweithredu yn Ganlyniadau.  Hefyd cefnogir y Cynllun Busnes gan asesiad o risg a chynllun gweithredu.

Atodwyd yr adroddiad Blynyddol yn Atodiad 2.  Prif bwrpas yr adroddiad Blynyddol yw myfyrio ar y perfformiad a'r sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd a'r swyddogion canlynol o SRS: Dave Holland, Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir; Christina Hill, Rheolwr Gweithredol, Iechyd Galwedigaethol ac Iechyd Cymunedol; Helen Picton, Rheolwr Gweithredol, Tîm Gwasanaethau Defnyddwyr; a Will Lane, Rheolwr Gweithredol, Amddiffyn y Cyhoedd; i'r cyfarfod.  Gwahoddwyd Dave Holland, Pennaeth Gwasanaethau a Rennir i roi cyflwyniad.  Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i holi, gwneud sylwadau neu geisio eglurder ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Chwiliodd yr Aelodau am eglurhad o'r trefniadau ar gyfer craffu'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir.  Dywedodd y swyddogion y bu trafodaethau hir ynglŷn â sut i graffu'r gwasanaeth orau.  Mae gan y tri awdurdod partner drefniadau craffu gwahanol ar waith.  Mae swyddogion o SRS wedi ymddangos o flaen pwyllgorau craffu nifer o weithiau ym mhob Cyngor a chafodd SRS ei herio i ddangos sut maent yn cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol ar bob achlysur.

- Gofynnodd yr aelodau am fanylion am lefel yr arbedion project yn SRS yn 2018/19, 2019/20 a 2020/21.  Dywedwyd wrth yr aelodau y gofynnwyd i

SRA gyflawni arbedion o 5% o flwyddyn i flwyddyn ers tair blynedd. Ar hyn o bryd cynhelir ymarfer ymgynghori gyda'r staff oherwydd bod niferoedd staff yn debygol o gael eu lleihau drwy ddileu swyddi. Gofynnodd yr aelodau a fydd yr SRS yn gallu cynnal ei alluoedd gorfodi os caiff niferoedd staff eu lleihau. Nododd y swyddogion y caiff 12 swydd gyfwerth ag amser llawn eu colli o bosibl a bydd heriau. Fodd bynnag, gellir cyflawni'r set o gynigion a restrir yn y cynllun Busnes 2018/19 a chaiff y meysydd blaenoriaeth eu cyflawni.

- Mae'r SRS yn datblygu meysydd incwm newydd. Er enghraifft, gan fod rheoliadau yng Nghymru yn wahanol i'r rhai yn Lloegr, mae sefydliadau mawr yn mynd at SRS, fel yr 'Awdurdod Sylfaenol' er mwyn cael mynediad at gyngor a sicrheir i fusnesau sy'n masnachu ar draws ffiniau sirol. Maes llwyddiannus lle y mae incwm wedi tyfu fu darparu hyfforddiant ar hylendid bwyd i fusnesau bach.

- Nododd yr Aelodau fod y targed perfformiad SRS/TS/002 – sy'n perthyn i nifer y toriadau sylweddol sy'n parhau i fod dros ben - heb ei gyflawni ers nifer o flynyddoedd. Gofynnodd yr aelodau i swyddogion wneud sylwadau ar y canlyniadau hyn. Dywedodd y Swyddogion y gall ymchwiliadau i doriadau sylweddol redeg am gryn dipyn o amser ac yn aml ni ddeuir â nhw i ben o fewn y flwyddyn ariannol. Felly, pan na chaiff ymchwiliadau eu cau, maent yn ymddangos fel 'coch' ac roedd hyn yn gamarweiniol. Gofynnodd yr aelodau a oedd swyddogion yn ystyried a oedd targed gwell neu fetrig gwell y gellid eu defnyddio. Ymatebodd y swyddogion bod rhai o bosibl, ond mae'r dangosydd yn ddangosydd cenedlaethol ar draws Cymru. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod erlyniad llys diweddar yn erbyn masnachwr twyllodrus wedi rhedeg ers 2 flynedd.

- Nododd y Pwyllgor fod lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn SRS yn is na chyfartaledd y Cyngor. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw wersi y gallai'r Cyngor eu dysgu o hyn. Dywedodd y Swyddogion fod gan yr SRS ddiwylliant hyblyg sy'n ymddiried yn staff ac yn eu grymuso. Ystyriodd yr Aelod Cabinet y dylai Aelodau fod yn wyliadwrus wrth gymharu lefelau absenoldeb oherwydd salwch ar draws cyfarwyddiaethau oherwydd nad yw amodau ym mhob gwasanaeth yr un peth.

- Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion wneud sylwadau a restrir ar Dudalen 75 y Cynllun Busnes sy'n perthyn i eiddo gwag y sector preifat. Dywedodd y Swyddogion fod gan yr awdurdod swyddog cartrefi gwag a gafodd y dasg o ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd buddiol. Bydd nifer o wasanaethau yn bwydo i mewn i hyn. Mae'r swyddog yn ymgysylltu â pherchnogion eiddo ac yn ceisio eu cyfeirio at gynlluniau sydd â'r nod o ddod ag eiddo gwag i mewn i ddefnydd. Ni chafodd targedau eu gosod eto ond mae'r gwaith yn barhaus i ddatblygu targedau ystyrlon i'w cynnwys yn y Cynllun Busnes yn y dyfodol. Dywedodd Aelodau'r Cabinet y bydd penderfyniad swyddog diweddar yn golygu bod gan yr awdurdod bellach y pŵer i ddod ag eiddo gwag mawr yn ôl i berchnogaeth y Cyngor.

- Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion wneud sylwadau ar lwyddiant y rhif ffôn Pwynt Cyswllt Unigol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y rhif ffôn Pwynt Cyswllt Unigol a thechnoleg y ganolfan gyswllt yn darparu data

gwerthfawr ar nifer y galwadau a dderbynnir, y materion, y meysydd y mae’r materion hynny yn digwydd ynddynt.  Bydd SRS yn gallu holi'r data hwn er mwyn adnabod tueddiadau a blaenoriaethu adnoddau.

- Cododd yr Aelodau bryderon y bydd y bobl hŷn neu'r rhai sy'n agored i niwed sy'n cymryd rhan yn y cynllun rhestr â chymorth ar gyfer y casgliadau gwastraff, pan ddangosir y tocyn diemwnt oren, o bosibl yn cael eu targedu gan fasnachwyr twyllodrus a mathau eraill ar sgamiau carreg y drws.  Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi clywed y pryderon hyn yn cael eu mynegi o'r blaen a'i fod heb weld unrhyw dystiolaeth eto fod y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn fwy tebygol o ddioddef o droseddau. Teimlai’r Aelod Cabinet fod y cynllun diemwnt oren yn syml a’i fod yn gweithio’n dda, fodd bynnag, byddai’n croesawu unrhyw wybodaeth bellach a ddarperir gan y Pwyllgor.

- Nododd yr Aelodau fod yr SRS yn cyrraedd ei dargedau ac mae ganddo gyfraddau boddhad uchel gan gwsmeriaid.  Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau i ehangu SRA yn y dyfodol.  Nid oedd y Swyddogion yn ymwybodol o unrhyw gynigion i ehangu SRS ymhellach.  Fodd bynnag, mae SRS wedi dangos y gall awdurdodau lleol ddod at ei gilydd a gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus ac felly mae’n bosibl y bydd yr awdurdodau partner yn dymuno parhau gyda SRS yn ei ffurf bresennol.

- Ystyriodd y Pwyllgor fod adborth a dderbyniwyd gan breswylwyr mewn ‘parthau galw diwahoddiad' yn dangos y croesewir y cynlluniau hyn a'u bod yn gweithio'n dda yn ymarferol.  Gofynnodd yr aelodau a ellid ystyrid parthau galw diwahoddiad mewn meysydd newydd yn y dyfodol. Dywedodd y swyddogion nad oedd ffynhonnell cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllun o'r fath yn bodoli bellach.  Fodd bynnag, mae gan SRS gyflenwad o sticeri/arwyddion y gellir eu darparu o hyd i breswylwyr mwy agored i niwed.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

7 : YMATEB Y CABINET I ADFER EIN HAFONYDD

Cyflwynwyd adroddiad ‘Adferwch ein Hafonydd’ y Pwyllgor Craffi Amgylcheddol i’r Cabinet ar 21 Medi 2017.  Cytunwyd ar ymateb y Cabinet gan y Cabinet ar 16 Tachwedd 2017.  Amcan yr adroddiad ‘Adferwch ein Hafonydd’ oedd arfarnu a mynd i’r afael â’r problemau cyfredol yn afonydd a chyrsiau dŵr Caerdydd.  Gwnaeth yr adroddiad Craffu 140 o ddarganfyddiadau allweddol a 20 o argymhellion; cafodd 18 o argymhellion eu derbyn mewn egwyddor, cafodd un argymhelliad ei dderbyn yn rhannol a chafodd un argymhelliad ei wrthod.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn gosod ymateb y Cabinet.  Gwahoddwyd Swyddogion o’r Gyfarwyddiaeth Cynllunio. Trafnidiaeth a'r Amgylchedd i fod yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn crynhoi ymateb y Cabinet ac ateb unrhyw gwestiynau gan y Pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael a Michael a Gary Brown, Rheolwr Gweithredol, Asedau, Peirianneg a Gweithrediadau i'r cyfarfod.  Gwahoddwyd y Cynghorydd Michael i roi datganiad byr.

Dywedodd y Cynghorydd Michael fod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet yn adroddiad rhagorol gan gyn-Aelodau'r Pwyllgor Craffu Amgylcheddol.  Unig bryder y Cynghorydd Michael oedd bod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn perthyn i ryw ffurf ar weithio mewn partneriaeth a bod hyn â hyn yn unig y gallai'r Cyngor ar ei ben ei hun ei wneud.    Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried gwahodd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i fyd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad oherwydd ei fod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i wneud hynny.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y Pwyllgor.  Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn mynd i'r afael ag adfer afonydd ar lefel dalgylch.  Gofynnodd yr Aelodau pam na ddylai'r awdurdod fabwysiadu ymagwedd anffurfiol a rennir er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad.  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod LlC a CNC eisoes yn gweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac mae ganddynt y pŵer i roi newid ar waith.  Gall y Pwyllgor ddal y ddau gorff yn gyfrifol.

- Ystyriodd yr Aelodai y gellid annog yr awdurdod lleol arall i fabwysiadu'r egwyddorion a restrir yn yr adroddiad.

- Ceisiodd y Pwyllgor eglurder o ran statws y Gyfarwyddeb Dyfrfyrdd Glân.  Dywedodd yr Aelod Staff nad oedd yn gallu rhoi ateb oherwydd bod y gyfarwyddeb yn gyfrifoldeb ar CNC.  Ystyriodd yr Aelod Cabinet y dylai CNC arwain ar ddilyn yr argymhellion yn yr adroddiad i fyny.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

8 : RHEOLI COED

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddodd cyfle i Aelodau adolygu sut y caiff Rheoli Coed ei gyflawni gan y Cyngor ac i ystyried trefniadau presennol a rhai posibl ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd yr Aelodau fod coed yn dod â llawer o fuddion iechyd, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.  Mae rheoli coed ar dir y Cyngor yn her gadarnhaol yn nhermau rheoli coed gan ei fod yn denu llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd.  Mae'r Uned Rheoli Coed yn gyfrifol am yr holl goed a leolir ar dir y Cyngor ac ar draws yr holl wasanaethau.  Caiff coed ar y strydoedd eu cynnal a'u cadw trwy gontract fframwaith a'r gyllideb am y contract hwn yw £96,000. Mae'r Uned Rheoli coed yn cyflogi 10 o staff cyfwerth ag amser llawn ac yn gweithredu gwasanaeth galw allan mewn argyfwng 24 awr y diwrnod, 365 diwrnod y flwyddyn.

Y gyllideb refeniw net ar gyfer Rheoli Coed yng Nghaerdydd ar gyfer 2017/18 oedd £428,000 a swm ychwanegol unwaith ac am byth o £100,000 a ddyrannwyd i leihau

ôl-groniad gwaith dros ben. Y gyllideb refeniw bet ar gyfer Rheoli Coed yng Nghaerdydd yn 2018/19 yw £431,530.

Y targed incwm a oedd yn ofynnol i gyflawni sefyllfa gyllidebol net o £429,000 ar gyfer 2017/18 oes £129,160. Cynhyrchodd y gwasanaeth £113,734, sef diffyg o £15,426. Y targed incwm ar gyfer 2018/19 yw £134,160 - cynnydd o £5,000. Yn seiliedig ar y ffigwr incwm 2017/18, bydd angen i'r gwasanaeth gynyddu incwm gan £20,426. Mae'r prif ffynonellau incwm ar gyfer arolygon a gwaith a ymgymerwyd ar ran y Gwasanaeth Ysgolion, Tai, Ystadau Strategol a Rheoli Datblygiad.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod Polisi Rheoli Coed y Cyngor yn seiliedig ar reoli risg a gofynion deddfwriaethol. Gellir gwneud hawliau o ran atebolrwydd yn erbyn y Cyngor os yr honnir yr ystyrir bod esgeulustod y Cyngor wedi achosi anafiad, colled neu ddifrod. Gall y Cyngor liniaru'r risg o hawliadau llwyddiannus trwy ddangos bod ganddo ymagwedd resymol sy'n seiliedig ar risg at arolygu a chynnal a chadw ei goed.

Nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i ymgymryd â chynnal a chadw ar dir preifat ac mae pryderon ynglŷn â choed ar dir preifat yn bennaf yn fater i'r tirfeddianwyr ei ddatrys. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn meddu ar bwerau i'w wneud yn ofynnol i dirfeddiannwr gwneud coeden sy'n bwgwth perygl sydd ar ddigwydd, yn ddiogel. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn ymyrryd ac yn ymgymryd â gwaith os bydd y tirfeddiannwr yn methu gweithredu o fewn amserlen resymol. Mae Arweiniad yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar reoli coed yn argymell y cymerir ymagwedd resymol a chytbwys wrth ymdrin â choed problemus. Rhestrwyd yr elfennau allweddol a argymhellwyd gan yr HSE yn yr adroddiad.

Mae'r rhaglen waith yn seiliedig ar risg a phennir blaenoriaethau yn seiliedig ar lefel y risg a berir. Mae'r rhaglen waith yn newid yn gyson ac nid yw'n anghyffredin i waith gael ei oedi neu i gwblhau gymryd yn hwy na'r disgwyl. Mae blaenoriaethu gwaith hefyd yn gyson ag arweiniad yr HSE. Mae categoreiddio'r risg hon fel a ganlyn:

Niwsans a Ganfyddir – gwaith diangen a ystyrir yn anaml i'w weithredu
Isel – gwaith angenrheidiol a gwblheir o fewn pum mlynedd
Canolig – gwaith angenrheidiol a gwblheir o fewn tair blynedd
Uchel – gwaith hanfodol a gwblheir o fewn 1 flwyddyn
Brys - gwaith a gwblheir o fewn 7 niwrnod
Argyfwng – sicrheir bod y safle'n ddiogel o fewn 2 awr

Dywedwyd wrth aelodau, yn 2017/18, y comisiynwyd y Cyngor APSE i gynnal 'Polisi Rheoli Coed ac Adolygiad o Reoli Gweithredol' a chyhoeddwyd darganfyddiadau'r adolygiad mewn adroddiad o'r enw 'Atebion APSE – Polisi Rheoli Coed ac Adolygiad ar Reoli Gweithredol – Adroddiad i Gyngor Dinas Caerdydd'. Atodwyd yr adroddiad yn Atodiad 1. Gwnaeth yr adroddiad 6 argymhelliad, y darparwyd manylion ohono yn y prif adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden; Jon Maidment, Rheolwr Gweithredol, Parciau a Chwaraeon; a Kevin Matthews, Arweinydd y Tîm, Uned Rheoli Coed, i'r cyfarfod.

Anerchodd y Cynghorydd Bradbury y Pwyllgor a dywedodd fod Rheoli Coed yn fater pwysig a oedd yn destun llawer iawn o ddiddordeb y cyhoedd a gohebiaeth a

dderbyniwyd. Sicrhawyd i'r Aelod Cabinet bod yr adolygiad ar y Polisi Rheoli Coed wedi dod i'r casgliad bod yr awdurdod yn gywir wrth gymryd ymagwedd sy'n seiliedig ar risg. Gorffennodd Aelodau'r Cabinet trwy ddweud bod Polisi'r Cyngor a Rheoli Coed yn y Ddinas yn gyffredinol yn cael ei weithredu gan dîm rhagorol o swyddogion.

Rhoddodd Jon Maidment gyflwyniad byr. Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr aelodau faint o goed sydd yng Nghaerdydd. Dywedodd y Swyddogion fod tua 573,400 o goed y gwyddys amdanynt, ond roeddent yn methu amcangyfrif sawl un o'r nifer hwnnw sy'n gyfrifoldeb ar y Cyngor.

- Gofynnodd yr Aelodau sut byddai lleihad yn y gyllideb o £96,000 yn effeithio ar y gwasanaeth ac a fydd risg yn cynyddu o ganlyniad. Dywedodd y swyddogion y byddai'r lleihad, yn anochel, yn effeithio ar faint o waith y gall y gwasanaeth ei wneud. Byddai'r fethodoleg sy'n seiliedig ar risg yn golygu o hyd y caiff swyddi risg uchel eu blaenoriaethu. Wrth liniaru, gall y gwasanaeth alw ar gydweithwyr yn y Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd, sydd â chymwysterau mewn ardystiad llif gadwyn ac yn gallu ymgymryd â gwaith sylfaenol. Dywedodd Aelodau'r Cabinet nad yw unrhyw benderfyniad i leihau cyllidebau yn rhwydd ond dylid bod yn ofalus i beidio â chodi bwganod yn ormodol. Profodd Storom Eileen fod gan y gwasanaeth y cyfarpar i ymateb yn gyflyn a sicrhau yr amddiffynnir diogelwch y cyhoedd.

- Nododd yr Aelodau, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwariwyd £100,000 o adnoddau ychwanegol yn mynd i'r afael â 125 o swyddi blaenoriaeth uchel. Gofynnodd yr Aelodau sut y câi'r diffyg hwn ei liniaru yn y dyfodol. Dywedodd y swyddogion y daethpwyd â'r contract coed ar y stryd yn ôl i fod yn fewnol ac mae'n bosibl y bydd angen galw ar gyllidebau eraill yn y Gwasanaethau Parciau.

- Gofynnodd yr aelodau pa bosibiliadau a gafodd eu hystyried yn nhermau incwm cynyddol, megis noddi coed neu werthu boncyffion o goedd a dorrwyd i lawr. Dywedodd y Swyddogion fod sglodion pren a rhisgl yn cael ei werthu ymlaen neu'n cael ei ddefnyddio mewn parciau a rhandiroedd. Rhoddir coed tân i'r Awdurdod Harbwr i'w ddefnyddio yn eu system gwresogi biomas. Caiff yr holl gynnyrch gwastraff ei ailgylchu.

- Esboniodd swyddog fod cofnod o'r coed a archwiliwyd yn cael ei gadw ar eu cronfa ddata rheoli coed. Darparodd y feddalwedd wybodaeth am gyflyrau'r coed, unrhyw waith sydd ei angen a dyddiadau unrhyw arolygiadau.

- Cymeradwyodd yr Aelodau y Swyddogion yn yr Uned Rheoli Coed am eu hymateb i amgylchiadau eithriadol yn ystod Storom Eileen. Gofynnodd yr Aelodau a fu cyfle i swyddogion fwydo gwersi a ddysgwyd yn ystod y digwyddiad yn ôl. Dywedodd yr swyddogion, ar ôl digwyddiadau argyfwng mae cyfle i swyddogion fwydo gwersi a

ddysgwyd yn ystod cyfnodau adrodd yn ôl. Roedd yr uned Rheoli Coed yn rhan o ymateb Rheoli Argyfyngau ehangach yr awdurdod ac mae'r Cynllun Rheoli wedi'i ymarfer yn drwyadl.

- Nododd yr Aelodau fod stoc coed Caerdydd yn un o'r goreuon yn y DU. Cytunodd yr Aelodau y gellid gwneud rhagor i gyfleu'r neges hon i'r cyhoedd a bod y potensial i noddi coed yn faes y dylid ei ystyried o ddifrif. Roedd yr Aelodau yn ymwybodol, mewn rhai gwledydd, rhoddir 'tystysgrif geni' i goed sydd newydd gael eu plannu ac mae hyn yn codi diddordeb a pherchnogaeth gymunedol ar y coed hynny. Cadarnhaodd y Swyddogion fod 300 o Frenhinbrennau yn y Ddinas – hynny yw y goeden hynaf a mwyaf o'r rhywogaeth honno yn y wlad. Mae gan yr awdurdod raglen noddi a gofynnir am rhwng 20 a 30 o goed coffa bob blwyddyn.

- Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd yr uned Rheoli Coed yn dileu coed yn unig, ond gwnaethant lawer o waith wrth gefnogi elusennau i blannu coed newydd. Fodd bynnag, daeth adolygiad APSE i'r casgliad y gallai'r awdurdod wneud mwy i wneud y gorau o gyfleoedd masnachol ac roedd gwaith ar gweill i roi'r argymhellion hynny ar waith.

- Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y CDLl a'r datblygiadau newydd yn y Ddinas wedi dod â her. Caiff coed newydd eu plannu ac ym mlynyddoedd 1 i 5 yn gyffredinol nid oes unrhyw broblemau. Wrth i'r coed dyfu mae problemau'n dechrau dod i'r amlwg ac felly mae'n bwysig cynllunio sut y caiff y rhain eu rheoli yn y dyfodol.

- Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion esbonio'r broses am gofnodi coed ar y feddalwedd rheoli coed a hefyd a fydd y costau sy'n gysylltiedig â rheoli coed yn cynyddu wrth i risg gynyddu. Dywedodd y swyddogion fod gwneud arolwg ar goed yn y ddinas ar y gweill, fodd bynnag, ni fyddai'n bosibl cynnal arolwg llawn heb gynnydd sylweddol o ran adnoddau. Mae 5 prif gategori ar gyfer cyflwr coed. Mae'r rhai risg isel yn gofyn am waith cosmetig yn unig. Mae coed blaenoriaeth uchel yn ddrutach eu rheoli yn gyffredinol. Mae meini prawf eraill i'w hystyried, yn benodol ar gyfer coed ar y stryd, megis difrod i'r seilwaith neu hawliau yswiriant oherwydd difrod i eiddo.

- Gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion esbonio'r rhesymwaith am ddileu coed ar y stryd. Dywedodd y swyddogion y caiff coed eu hadnewyddu ar gylched o 3 blynedd. Yn aml nid oes digon o amser i ganiatáu am dorri coed ac ailblannu stoc newydd yn ystod yr un flwyddyn. Mae'r Uned Rheoli Coed yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran Briffyrdd megis yn St John's Crescent Yr Eglwys Newydd, lle yr oedd coed ynn yn achosi difrod i'r droedffordd. Gwnaeth cydweithiwr yn yr adran briffyrdd 'bilio yn ôl' y droedffordd i alluogi'r coed problemus gael eu dileu a'u hadnewyddu. Wedyn adferodd y tîm Priffyrdd y droedffordd ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

- Gofynnodd y Pwyllgor am sylwadau ar y problemau roedd y gwasanaeth yn eu cael wrth recriwtio a chadw staff. Dywedodd y

swyddogion fod recriwtio wedi bod yn broblematig am dipyn o amser hyd yma a bu rhai swyddi yn wag ers 12 mis neu fwy. Mae'r diffyg staff â chymwysterau addas hefyd yn broblem yn y sector preifat. Gofynnodd yr aelodau a allai'r gwasanaethau wneud mwy i gystadlu gyda'r sector preifat. Dywedodd y swyddogion, er mwyn cystadlu'n allanol gyda chwmnïau rheoli coed y sector preifat, byddai angen capasiti ychwanegol ar y gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth ôl-groniad ar waith mewnol.

- Gofynnodd yr aelodau i ba raddau mae Gorchmynion Diogelu Coed (TPO) yn amddiffyn coed. Dywedodd y swyddogion y caiff Gorchmynion Diogelu Coed eu rheoli gan yr Adran Gynllunio a gellir eu defnyddio gan aelodau'r cyhoedd i amddiffyn coed presennol. Mae'n rhaid i ddatblygwyr ddweud faint o goed a ddiogelir sydd o fewn ffiniau eu ceisiadau cynllunio. Dywedodd yr Aelod Cabinet, mae a yw coeden yn gymwys ar gyfer TPO yn cael ei gefnogi gan broses fiwrocratig ac roedd yn bwysig rheoli disgwyliadau.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod yr Uned Rheoli Coed yn darparu hyfforddiant mewnol.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod y Gwasanaeth Parciau yn gwerthu planhigion a phrysglwyni, er nad yw hyn yn rhan o'r gwasanaeth Rheoli Coed. Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys contractau newydd gyda'r Ardal Gwella Busnes a Chyngor Bro Morgannwg. Mae incwm yn yr ardal hon yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

- Gofynnodd yr aelodau a ellid gwneud rhagor i ddarparu gwybodaeth i breswylwyr am gategoreiddio cyflyrau'r coed. Ystyriodd Aelodau'r Cabinet fod hyn yn bwynt teg gan gytuno i fyfyrio ar hyn.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

9 : CYNLLUNIO RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL 2018/19

Gwahoddodd y Prif Swyddogion Craffu Aelodau i wneud sylwadau ar strwythur Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2018/19. Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn cyfarfod yn anffurfiol er mwyn trafod y strwythur a'r eitemau posib i'w cynnwys yn y Rhaglen Waith.

Gofynnodd y Pwyllgor fod y Prif Swyddog Craffu yn cylchredeg dyddiadau ac amserau posibl ar gyfer y penderfyniad anffurfiol, i gynnwys dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y Pwyllgor presennol.

Ystyriodd yr aelodau fod gwerth hefyd i'r awgrym y gellir gwahodd cyrff allanol i'r drafodaeth ar y Rhaglen Waith fel y gellir gwahodd y cyrff hynny i awgrymu pa feysydd neu bynciau y bydd y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol yn dymuno canolbwyntio arnynt.

10 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Hysbyswyd yr aelodau y byddai cyfarfod y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol nesaf yn cael ei gynnal ar 3 Gorfennaf

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm